# Sut i osod eich larwm carbon monocsid (CO)




EICH GWASANAETH
ARGYFWNG NWY A PHIBELLAU


WALES&WEST
UTILITIES

# Cadwch yn ddiogel rhag CO!



## Cam 1

Tynnwch eich larwm CO allan o'r blwch.




## Cam 2

Gwthiwch y plât cefn i'w le – bydd yn bib-bipian pan fydd wedi'i osod yn gadarn yn ei le.

## Cam 3

Rhowch eich larwm mewn lleoliad lle gellir ei weld yn glir, tua 1-3m o'r peiriant llosgi tanwydd agosaf.




**AWGRYM** – Peidiwch â rhoi eich larwm yn union uwchben ffynhonnell gwres nac yn agos at unrhyw ffenestri neu agoriadau.

## Beth yw carbon monocsid (CO)?

Allwch chi ddim ei weld . Allwch chi ddim ei arogli. Allwch chi ddim ei flasu. Mae'n cael ei alw yn lladdwr cudd. Mae CO yn nwy gwenwynig sy'n cael ei ryddhau pan fydd unrhyw danwydd ffosil sy'n llosgi, fel glo, olew, pren, petrol, siarcol barbeciw a nwy, ddim yn llosgi'n iawn.



Os bydd eich larwm CO yn canu, ewch allan ar unwaith a ffonio: **0800 111 999.**



## Mae'r symptomau'n cynnwys:

- cur pen
- pendro
- cyfog (teimlo'n sâl) a chwydu
- blinder a dryswch
- poen yn y stumog
- byr o wynt a thrafferth wrth anadlu.

## Gwybodaeth ddefnyddiol!

Allwch chi ddim newid y batris yn eich larwm CO, felly bydd angen i chi gael un newydd erbyn y dyddiad a ddangosir ar ochr y larwm. Gallwch brynu larwm newydd o'ch siop DIY leol.

**AWGRYM** – Sicrhewch bod eich larwm CO newydd yn bodloni Safon BS EN 50292:2023.

**Pan fydd eich batri yn dod i'w derfyn, bydd yn bipian dair gwaith bob munud.**

- Pŵer (gwyrdd) = larwm CO yn gwbl weithredol
- Larwm (coch) = CO wedi'i ganfod
- Diffyg (melyn) = Diffyg



# Arwyddion o CO ar beiriannau:



Peiriannau nwy sy'n llosgi gyda fflam felyn neu oren wan, sydd fel arfer yn ddisglair las




Golau peilot ar fwyleri yn aml yn chwythu allan



Anwedd ychwanegol y tu mewn i ffenestri



Huddugl neu staeniau melyn o gwmpas peiriannau



## Amau CO?

Os byddwch yn arogli **nwy** neu'n amau gwenwyn CO, ewch allan ar unwaith a'n ffonio **ni** ar y rhif argyfwng nwy cenedlaethol **0800 111 999**.

---

Mae'n bwysig bod peiriannau'n cael eu gwasanaethu'n flynyddol gan beiriannydd sydd wedi'i gofrestru ar y gofrestr Diogelwch Nwy, a'ch bod yn gosod larwm CO clywadwy sydd wedi'i ardystio ac sy'n cael ei brofi'n rheolaidd.

GAS safe® REGISTER